

## Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 24 Hydref 2019 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 18 Hydref 2019.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir De'Ath (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Robson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

## 86 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y cynghorwyr Asghar Ali, Thomas Parkhill ac Emma Sandrey.

Roedd y Cynghorydd McEvoy wedi dweud o'r blaen y byddai'n hwyr yn dod i'r cyfarfod.

## 87 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

CYNGHORYDD	EITEM	BUDDIANT
Y Cynghorydd Gavin Hill-John	17	Buddiant Personol - Is-gadeirydd, Bws Caerdydd
Y Cynghorydd Owen Jones	17	Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd
Y Cynghorydd Chris Lay	17	Buddiant Personol - Cadeirydd, Bws Caerdydd
Y Cynghorydd Singh	17	Buddiant Personol - Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd
Y Cynghorydd Williams	17	Buddiant Ariannol - Yn rhan o anghydfod cyfreithiol parhaus gyda Bws Caerdydd.

## 88 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

#### 89 : ISETHOLIAD YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS

Estynnwyd croeso cynnes i'r Cynghorydd Mia Rees, i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor fel yr Aelod newydd ei ethol ar gyfer yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, yn dilyn yr isetholiad ar 3 Hydref 2019. Gwahoddwyd y Cynghorydd Rees i siarad.

Talodd y Cynghorydd Rees deyrnged i'r diweddar gynghorydd Tim Davies a'i ymroddiad i ddinasyddion yr ardal dros nifer o flynyddoedd yr Eglwys Newydd a Thongwynlais.

Diolchodd y Cynghorydd Rees i'r Swyddog Canlyniadau a'i dîm am gynnal etholiad a chyfrif yn effeithiol ac effeithlon, a diolchodd i'r holl ymgeiswyr eraill am eu cwrteisi a'u hagwedd broffesiynol tuag at yr ymgyrch.

Roedd y Cynghorydd Rees yn ddiolchgar am yr ymddiriedaeth a roddwyd iddi gan drigolion yr Eglwys Newydd a Thongwynlais a'r fraint o fod yn Gynghorydd iddynt ac yn Aelod Etholedig o Gyngor Caerdydd. Tanlinellodd y Cynghorydd Rees ei bod yn bwysig iddi weithredu gydag uniondeb a pharch ac ymrwymodd i weithio'n galed i gynrychioli buddiannau pob unigolyn yn y ward yn ogystal â buddiannau dinasyddion Caerdydd yn gyffredinol.

#### 90 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Cwestiwn Cyhoeddus – *Madhu Khanna-Davies*

Mae colli'r gwasanaeth bws rhif 28 ar hyd Lake Road West wedi gadael trigolion mewn rhan o Gyncoed wedi'u torri i ffwrdd a'u hynysu, wedi'u gadael gan wasanaeth cyhoeddus nad yw bellach yn eu gwasanaethu. Gofynnaf i'r Cyngor a fyddant yn sefyll wrth drigolion Cyncoed ac yn mynnu bod Bws Caerdydd yn ailgyfeirio gwasanaeth ar hyd Lake Road West?

Ateb - *y Cynghorydd Wild*

Darperir y mwyafrif helaeth o wasanaethau bws yng Nghaerdydd yn fasnachol. Mae pwysau parhaus ar gyllideb y Cyngor, oherwydd llymder, wedi lleihau ein gallu i sybsideiddio gwasanaethau bws anfasnachol neu gymdeithasol angenrheidiol yn ddifrifol ac yn anffodus, mae hyn wedi golygu bod rhai gwasanaethau, sydd wedi eu tynnu'n ôl gan eu bod yn gwneud colled, heb eu hadnewyddu.

Ailgyfeiriwyd gwasanaeth bws rhif 28 fel rhan o'r newidiadau i wasanaethau a oedd yn gysylltiedig â thynnu nifer o wasanaethau bws yn ôl ym mis Ionawr eleni. Mae'r gwasanaeth hwn yn dal i wasanaethu Cyncoed, ond mae bellach yn rhedeg ar hyd Lake Road East yn hytrach na gwasanaethu Lake Road West a Celyn Avenue fel yr oedd o'r blaen oherwydd niferoedd isel o deithwyr blaenorol.

Cwestiwn Atodol – *Madhu Khanna-Davies*

O golli'r gwasanaeth ar hyd Lake Road West mae'n amlwg nad yw Bws Caerdydd yn ystyried bod llwybrau Cyncoed yn broffidiol. Rydym wedi colli gwasanaethau eraill o dan yr un rhesymeg. Y Rhif 54, yn hanesyddol dyma oedd y rhif 29, a gwasanaeth rhif 51 a 53 sydd wedi eu lleihau. Wrth symud ymlaen, mae'r cwestiwn yn dal i fod yn berthnasol - sut y mae'r cyngor a Bws Caerdydd yn mynd i integreiddio'n gynhwysol a gwasanaethu Cyncoed yn iawn yn ei gyfanrwydd, gan gynnig opsiwn cymudo hyfyw, fforddiadwy ac amgylcheddol gadarn i breswylwyr ar hyn o bryd? Pa gynlluniau sydd gennych?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Nid ydym wedi gwneud osgoi cyfaddef bod angen llawer o welliant ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas. Hoffwn nodi eto bod Bws Caerdydd yn gweithredu fel endid masnachol hyd braich oddi wrth y Cyngor. Mae'n anodd iawn i ni fynnu'n union ble y maent yn rhedeg llwybrau bws, ond, mae'r gwaith y mae Bws Caerdydd wedi'i wneud yn ddiweddar wedi creu argraff fawr arnom, gan gynnwys gwaith gan bobl yn y Siambr hon i wella'r busnes hwnnw ac i wasanaethu mwy o rannau o Gaerdydd. Ac rwy'n hapus i gael trafodaethau parhaus gyda nhw i weld sut y gallwn wella pethau.

91 : DEISEBAU

Daeth y ddeiseb fel a ganlyn i law:

Cynghorydd	Nifer y llofnodion	Cais
Cynghorydd Naughton	20	Galw ar y Cyngor i ofyn am bwerau angenrheidiol o Lywodraeth Cymru i gyflwyno parthau gwrth-segura y tu allan i ysgolion i lanhau'r aer mae'r plant yn anadlu.

92 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Soniodd yr Arglwydd Faer am farwolaeth cyn ei adeg a thrasig Nick Beckley yn 35 oed ar ôl cwblhau Hanner Marathon Caerdydd. Roedd Nick yn Uwch Gynllunydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Roedd yn dalent aruthrol wrth berfformio ei rôl, yn swyddog manwl, angerddol a diwyd, yn wir, yn was cyhoeddus model a seren oedd yn codi o fewn y Cyngor. Ar ben hynny, roedd Nick yn ffigwr hynod boblogaidd, yn ŵr bonheddig a disglair iawn o ran gwedduster a chymedroli. Ar ran y Cyngor, cynigiodd yr Arglwydd Faer gydymdeimlad diffuant â theulu a ffrindiau Nick a byddai'n ysgrifennu at y teulu.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Stephen Cunnah a'i bartner Hannah ar enedigaeth eu merch Megan Rose, a anwyd ar y 14 Hydref yn pwysu yn 7 pwys 5 owns.

93 : HYSBYSIAD O SWYDD WAG

Hysbyswyd y Cyngor am yr hysbysiad o sedd wag ar gyfer swydd cynghorydd yn adran etholiadol Llanisien a'r trefniadau ar gyfer etholiad i lenwi'r swydd wag.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r swydd wag ar gyfer swydd cynghorydd yn adran etholiadol Llanisien a'r trefniadau ar gyfer etholiad i lenwi'r swydd wag.

#### 94 : ADOLYGIAD O GORSAFOEDD PLEIDLEISIO

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan y Cynghorydd Mick Jones-Pritchard.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- i) Yn cymeradwyo uniad dosbarth pleidleisio 28B â 28A fel y nodir ym mharagraff 11 (b)
- ii) Yn nodi y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gweithredu unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i'r gofrestr etholwyr.
- iii) Yn dynodi pob man pleidleisio fel un sydd o fewn cyffiniau cyffredinol pob lleoliad a ddefnyddir at ddibenion gorsafoedd pleidleisio.
- iv) Yn gwneud dim newidiadau eraill i'r dosbarthau pleidleisio.
- v) Yn nodi bydd y Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau'r gorsafoedd pleidleisio o fewn pob ardal cyn etholiadau, gan ystyried y cynigion a nodir ym mharagraff 11 uchod ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy'n berthnasol ar y pryd.

#### 95 : ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth yr adroddiad, a oedd yn amlinellu pwrpas proses Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac i geisio cymeradwyaeth trydydd AMB CDLI Caerdydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019. Hwn oedd y trydydd AMB i'w baratoi ers mabwysiadu'r cynllun ac roedd yn seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Keith Jones.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y drafodaeth ar yr eitem pan wnaed y sylwadau a'r arsylwadau canlynol.

Seilwaith i gefnogi datblygiadau mawr, gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Ansawdd y dylunio, ynghyd â manau parcio. Mwy o draffig i mewn i'r ddinas. Gwelliannau i feicio yng Ngogledd Caerdydd a chael effaith ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd Joel Williams gyfeiriad yn ôl ar yr adroddiad.

Eiliwyd y cyfeiriad yn ôl gan y Cynghorydd Philippa Hill-John.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ar y cyfeiriad yn ôl ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

O blaid – y Cynghorwyr G. Thomas, L Morgan, O Owen, M Rees, J Williams, S Driscoll, S Jenkins, K Kelloway, M Jones-Pritchard, J Lancaster, A Robson, J Cowan, M Phillips, D Rees, M Rees, D Walker, R McKerlich, L Hudson, P Hill-John, G Hill-John, F Bowden, A Gibson, L Ford, N McEvoy, K Parry.

Yn erbyn – y Cynghorwyr A Ahmed, H Joyce, R Goodway, A Lister, L Thorne, H Thomas, E Stubbs, B Derbyshire, R Patel, O Owen-Jones, M Michael, L Bridgeman, B Bowen-Thompson, J Burke-Davies, J Parry, K Singh, G Hinchey, C Weaver, J Henshaw, M McGarry, F Jacobsen, A Sattar, S Elsmore, S Goddard, S Cunnah, N Mackie, I Gordon, D Ali, S Ebrahim, E Simmons, C Lay, C Wild, S Merry, P Bradbury, K Jones, P Wong, S Lent, B Molik, J Boyle, R Hopkins, J Carter, R Berman, A Wood, D Naughton, N Howells.

COLLWYD y cynnig i gyfeirio'n ôl.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ar yr argymhellion fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad:

O blaid – y Cynghorwyr A Ahmed, H Joyce, R Goodway, A Lister, L Thorne, H Thomas, E Stubbs, B Derbyshire, R Patel, O Owen-Jones, M Michael, L Bridgeman, B Bowen-Thompson, J Burke-Davies, J Parry, K Singh, G Hinchey, C Weaver, J Henshaw, M McGarry, F Jacobsen, A Sattar, S Elsmore, S Goddard, S Cunnah, N Mackie, I Gordon, D Ali, S Ebrahim, E Simmons, C Lay, C Wild, S Merry, P Bradbury, K Jones, P Wong, S Lent.

Ymatal – F Bowden.

Yn erbyn - y Cynghorwyr G. Thomas, L Morgan, M Rees, J Williams, S Driscoll, S Jenkins, K Kelloway, O Owen, M Jones-Pritchard, J Lancaster, A Robson, J Cowan, M Phillips, D Rees, M Rees, D Walker, R McKerlich, L Hudson, P Hill-John, G Hill-John, A Gibson, L Ford, K Parry, B Molik, J Boyle, R Hopkins, J Carter, R Berman, A Wood, D Naughton, N Howells.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

96 : POLISI ENWI STRYDOEDD

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Caro Wild yr adroddiad ac argymell y Polisi Enwi Strydoedd. Mae gan Gyngor Caerdydd gyfrifoldebau a phwerau statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiadu, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a nodi enwau

strydoedd. Mae gan y Cyngor bwerau dewisol ychwanegol hefyd i roi rhif neu enw i eiddo. Mae gan enwi a rhifo strydoedd nifer o swyddogaethau pwysig, er enghraifft, cyfeirio ffordd, dosbarthu post yn effeithlon a sicrhau bod y gwasanaethau brys yn gallu dod o hyd i eiddo'n gyflym.

Eiliwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr eitem pan wnaed y sylwadau a'r arsylwadau canlynol.

Dylai hanes enwau strydoedd Caerdydd a'r stori a ddywedasant, fod ar gael i bawb waeth beth fo'u dewis iaith. Eglurder o fewn yr adroddiad ynghylch a fyddai enwau Strydoedd Saesneg yn cael eu rhwystro. A fyddai gan y Cyngor fadad i orfodi'r polisi ar ddatblygiadau newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Shaun Jenkins gyfeiriad yn ôl ar yr adroddiad.

Eiliwyd y cyfeiriad yn ôl gan y Cynghorydd Joel Williams.

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ar y cyfeiriad yn ôl ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

O blaid – y Cynghorwyr G. Thomas, L Morgan, M Rees, J Williams, S Driscoll, S Jenkins, K Kelloway, M Jones-Pritchard, J Lancaster, A Robson, J Cowan, M Phillips, D Rees, D Walker, R McKerlich, L Hudson, P Hill-John, G Hill-John.

Ymatal - O Owen.

Yn erbyn – y Cynghorwyr A Ahmed, H Joyce, R Goodway, A Lister, L Thorne, H Thomas, E Stubbs, B Derbyshire, R Patel, O Owen-Jones, M Michael, L Bridgeman, B Bowen-Thompson, J Burke-Davies, J Parry, K Singh, G Hinchey, C Weaver, J Henshaw, M McGarry, F Jacobsen, A Sattar, S Elsmore, S Goddard, S Cunnah, N Mackie, I Gordon, D Ali, S Ebrahim, E Simmons, C Lay, C Wild, S Merry, P Bradbury, K Jones, P Wong, S Lent, B Molik, J Boyle, R Hopkins, J Carter, R Berman, A Wood, D Naughton, N Howells, F Bowden, A Gibson, L Ford, K Parry.

COLLWYD y cynnig i gyfeirio'n ôl

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ar yr adroddiad sylweddol ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Yn erbyn – y Cynghorwyr G Thomas, J Williams, S Jenkins, D Walker, R McKerlich.

Ymatal – y Cynghorwyr L Morgan, M Rees, K Kelloway, J Lancaster, M Phillips, D Rees, P Bryn-John, G Hill-John.

O blaid – y Cynghorwyr O Owen, S Driscoll, M Jones-Pritchard, A Robson, J Cowan, L Hudson, F Bowden, A Gibson, L Ford, K Parry, A Ahmed, H Joyce, R Goodway, A Lister, L Thorne, H Thomas, E Stubbs, B Derbyshire, R Patel, O Owen-Jones, M Michael, L Bridgeman, B Bowen-Thompson, J Burke-Davies, J Parry, K Singh, G

Hinchey, C Weaver, J Henshaw, M McGarry, F Jacobsen, A Sattar, S Elsmore, S Goddard, S Cunnah, N Mackie, I Gordon, D Ali, S Ebrahim, E Simmons, C Lay, C Wild, S Merry, P Bradbury, K Jones, P Wong, S Lent, B Molik, J Boyle, R Hopkins, J Carter, R Berman, A Wood, D Naughton, N Howells.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

## 97 : DATGANIADAU'R ARWEINYDD AC AELODAU'R CABINET

Derbyniwyd y datganiadau canlynol a gofynnwyd cwestiynau i'r Aelodau am faterion o fewn y datganiad.

### [Datganiad yr Arweinydd](#)

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar y canlynol:

- Ymgyrch Yellowhammer ac a fu unrhyw effaith neu gamau gweithredu i Gaerdydd;
- Y Streic Hinsawdd Fyd-eang a chanfyddiadau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn canfod bod ynni a ddefnyddir mewn adeiladau presennol yn cael yr effaith fwyaf sylweddol yn yr amgylchedd adeiledig;
- Beth mae Cyngor Caerdydd wedi'i wneud yn benodol ers datgan Argyfwng yn yr Hinsawdd;
- Pa mor barod yw'r Cyngor ar gyfer Etholiad Cyffredinol o ran argaeledd gorsafoedd pleidleisio a'r defnydd o Gofrestrau;

### [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- A fyddai Uwch-briffordd Feicio yn cael ei dargyfeirio oddi wrth goetiroedd Nant Fawr;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth Next Bike ym Mhentwyn a Llanedern;
- Diweddariad ar y seilwaith megis lonydd bysiau i gefnogi safle parcio a theithio yn Nantgarw.

### [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Yr Arena Dan Do a darparu maes parcio mewn perthynas â rhaniad moddol;
- Sicrwydd ynghylch gorsafoedd ar gyfer Parcfordd Caerdydd yn Sblot ac Adamsdown;
- Seilwaith Trafnidiaeth i gefnogi Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd;
- Sicrwydd am fannau Gwyrdd a Chymunedol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu.

### [Datganiad yr Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Y gostyngiad yn oriau a dyddiau nofio am ddim i rai dros 60 oed;
- Darpariaeth y Theatr Newydd yn y dyfodol a sicrwydd i staff;

#### [Datganiad y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau](#)

Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd i gwestiynau ar y canlynol:

- Gwisg ysgol, cynlluniau rhoi organau a fforddiadwyedd.
- Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.
- Caerdydd 2030 a darpariaeth iaith Gymraeg.

#### [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Yr Ap Symudol a'i ddatblygiad wrth symud ymlaen mewn perthynas â defnyddwyr yn cael negeseuon testun cadarnhau ac a ellir adrodd am broblem parcio drwy'r Ap;
- Y pryderon gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad am y gorwariant rhagamcanol.

#### [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Y cymorth a ddarperir yn yr Hybiau ar gyfer ceisiadau am Docynnau Teithio Consesiynol ar fysiau, a chymorth y gellir ei ddarparu ar ôl y cyfnod ymgeisio;
- Darparu gwasanaethau fel caffis yn yr Hybiau;
- Her Ddarllen yr Haf
- Cais am wybodaeth megis tueddiadau/nifer y defnyddwyr mewn perthynas â llyfrgelloedd;
- Sicrwydd y gellir bodloni'r amserlenni mewn perthynas â Tudor Street.

98 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Rhys Taylor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Joe Boyle wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i fod wedi'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Roedd un diwygiad wedi dod i law.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Rhys Taylor gan yr Arglwydd Faer i gyflwyno'i gynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

1. Yn croesawu'r ffaith i'r weinyddiaeth gyfredol ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Mawrth 2019, gan nodi bod tystiolaeth yn dangos effaith newid yn yr hinsawdd a achosir gan fodau dynol.
2. Yn derbyn canfyddiadau datganiad proffesiynol 'Asesiad carbon bywyd cyfan ar gyfer yr amgylchedd wedi'i adeiladu' y Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr

Siartredig 2017 bod yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio i weithredu adeiladau cyfredol yn cynrychioli'r effaith carbon fwyaf sylweddol o'r amgylchedd wedi'i adeiladu, gan gyfrannu 30% o allyriadau cyfan y DU yn 2017.

3. Yn cydnabod, yng ngeiriau Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU [UK GBC], bod diwydiant adeiladu'r DU yn anaml ar hyn o bryd yn mesur ac adrodd ar effeithiau carbon corfforedig ar gyfer atgyweirio, adnewyddu a chyfnodau diwedd oes cylch bywyd adeiladau.
4. Yn credu bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae i sicrhau bod rhaid i broiectau adeiladu mawr, y mae ganddynt fudd ynddynt, ystyried a lleihau'r holl effeithiau carbon sy'n dod o'r broiectau hynny.
5. Yn gwrthod, yng ngoleuni ei Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd, cyfiawnhau, cymeradwyo neu symud ymlaen broiectau adeiladu mawr na allant brofi y byddant yn broiectau sero carbon o ran defnyddio ynni gweithredol ac adeiladu.

Felly bydd y Cyngor hwn:

- Yn mabwysiadu diffiniad fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU, fel y mae yn awr ac fel y bydd yn y dyfodol, gan atodi'r fframwaith i gynllun datblygu, polisiau allweddol a chanllaw cynllunio'r Cyngor, fel sy'n berthnasol.
- Yn gofyn bod yr holl broiectau adeiladu mawr yn dangos eu bod wedi cyflawni statws carbon sero net, trwy roi fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net UKGBC*, cyn cael cymeradwyaeth y cabinet.
- Yn cofrestru ar gyfer *Ymrwymiad Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y Byd, sy'n 'herio cwmnïau, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau llofnodol i gyflawni carbon sero net ar gyfer ynnig gweithredol yn eu portffolios erbyn 2030, ac i eirioli i'r holl adeiladau fod yn rhai sero net wrth weithredu erbyn 2050.'

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Joe Boyle.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gynigydd y diwygiad, y Cynghorydd Russell Goodway, i gyflwyno'r gwelliant:

1. ***Llinell gyntaf paragraff 2 - i amnewid Derbyn gyda Nodi.***
2. ***Llinell gyntaf paragraff 2 - i amnewid Derbyn gyda Nodi.***
3. ***Llinell gyntaf paragraff 3 - i amnewid Cydnabod gyda Nodi***
4. ***Dileu paragraffau 4 a 5.***

**Diwygio'r frawddeg i ddarllen:**

**Mae'r Cyngor yn gofyn i'r Cabinet sicrhau bod yr adolygiad o CDLlau yn y dyfodol yn ystyried effaith y canlynol:**

**Diwygio'r paragraff i ddarllen**

- **Mabwysiadu** diffiniad fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU, fel y mae yn awr ac fel y bydd yn y dyfodol, gan atodi'r fframwaith i gynllun datblygu, polisiau allweddol a chanllaw cynllunio'r Cyngor, fel sy'n berthnasol.
- **Dileu'r 2<sup>il</sup> baragraff**

**Diwygio'r paragraff i ddarllen**

- **Cofrestru** ar gyfer *Ymrwymiad Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y Byd, sy'n 'herio cwmnïau, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau llofnodol i gyflawni carbon sero net ar gyfer ynnig gweithredol yn eu portffolios erbyn 2030, ac i eirioli i'r holl adeiladau fod yn rhai sero net wrth weithredu erbyn 2050.'

**Paragraff ychwanegol i ddarllen:**

Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn croesawu'r bwriad a nodwyd eisoes gan y Cabinet i gyhoeddi, ddechrau'r flwyddyn nesaf, strategaeth gynhwysfawr mewn ymateb i'r Datganiad Argyfwng yn yr Hinsawdd ac yn gofyn bod y strategaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i sut y gellir cyflawni sefyllfa sero carbon net.

Y cynnig wedi'i ddiwygio i ddarllen:

Mae'r Cyngor:

1. Yn croesawu'r ffaith i'r weinyddiaeth gyfredol ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Mawrth 2019, gan nodi bod tystiolaeth yn dangos effaith newid yn yr hinsawdd a achosir gan fodau dynol.
2. Yn nodi canfyddiadau datganiad proffesiynol '*Asesiad carbon bywyd cyfan ar gyfer yr amgylchedd wedi'i adeiladu*' y Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig 2017 bod yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio i weithredu adeiladau cyfredol yn cynrychioli'r effaith carbon fwyaf sylweddol o'r amgylchedd wedi'i adeiladu, gan gyfrannu 30% o allyriadau cyfan y DU yn 2017.

Yn nodi, yng ngeiriau Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU [UK GBC], 'bod diwydiant adeiladu'r DU yn anaml ar hyn o bryd yn mesur ac adrodd ar effeithiau carbon corfforedig ar gyfer atgyweirio, adnewyddu a chyfnodau diwedd oes cylch bywyd

adeiladau a bod y Cyngor, yn gofyn i'r Cabinet sicrhau bod yr adolygiad o CDLlau yn y dyfodol yn ystyried effaith y canlynol:

- Mabwysiadu diffiniad fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU, fel y mae yn awr ac fel y bydd yn y dyfodol, gan atodi'r fframwaith i gynllun datblygu, polisiau allweddol a chanllaw cynllunio'r Cyngor, fel sy'n berthnasol.
- Cofrestru ar gyfer *Ymrwymiad Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y Byd, sy'n 'herio cwmnïau, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau llofnodol i gyflawni carbon sero net ar gyfer ynni gweithredol yn eu portffolios erbyn 2030, ac i eirioli i'r holl adeiladau fod yn rhai sero net wrth weithredu erbyn 2050.'

Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn croesawu'r bwriad a nodwyd eisoes gan y Cabinet i gyhoeddi, ddechrau'r flwyddyn nesaf, strategaeth gynhwysfawr mewn ymateb i'r Datganiad Argyfwng yn yr Hinsawdd ac yn gofyn bod y strategaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i sut y gellir cyflawni sefyllfa sero carbon net.

Eiliwyd y Cyngorydd Michael y diwygiad.

Ar ddiwedd y drafodaeth, gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cyngorydd Taylor i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y ddadl. Nid oedd y Cyngorydd Taylor yn derbyn y diwygiad.

Symudodd yr Arglwydd Faer i bleidleisio ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cyngorydd Goodway.

PASIWYD y Diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cyngorydd Ggodway fel cynigiwr y Cynnig o Sylwedd i ymateb.

Symudodd yr Arglwydd Faer i'r bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd

DERBYNIWYD y Cynnig o Sylwedd fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor:

Yn croesawu'r ffaith i'r weinyddiaeth gyfredol ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Mawrth 2019, gan nodi bod tystiolaeth yn dangos effaith newid yn yr hinsawdd a achosir gan fodau dynol.

Yn nodi canfyddiadau datganiad proffesiynol '*Asesiad carbon bywyd cyfan ar gyfer yr amgylchedd wedi'i adeiladu*' y Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig 2017 bod yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio i weithredu adeiladau cyfredol yn cynrychioli'r effaith carbon fwyaf sylweddol o'r amgylchedd wedi'i adeiladu, gan gyfrannu 30% o allyriadau cyfan y DU yn 2017.

Yn nodi, yng ngeiriau Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU [UK GBC], 'bod diwydiant adeiladu'r DU yn anaml ar hyn o bryd yn mesur ac adrodd ar effeithiau carbon corfforedig ar gyfer atgyweirio, adnewyddu a chyfnodau diwedd oes cylch bywyd adeiladau a bod y Cyngor, yn gofyn i'r Cabinet sicrhau bod yr adolygiad o CDLlau yn y dyfodol yn ystyried effaith y canlynol:

- Mabwysiadu diffiniad fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU, fel y mae yn awr ac fel y bydd yn y dyfodol, gan atodi'r fframwaith i gynllun datblygu, polisiau allweddol a chanllaw cynllunio'r Cyngor, fel sy'n berthnasol.
- Cofrestru ar gyfer *Ymrwymiad Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y Byd, sy'n 'herio cwmnïau, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau llofnodol i gyflawni carbon sero net ar gyfer ynni gweithredol yn eu portffolios erbyn 2030, ac i eirioli i'r holl adeiladau fod yn rhai sero net wrth weithredu erbyn 2050.'

Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn croesawu'r bwriad a nodwyd eisoes gan y Cabinet i gyhoeddi, ddechrau'r flwyddyn nesaf, strategaeth gynhwysfawr mewn ymateb i'r Datganiad Argyfwng yn yr Hinsawdd ac yn gofyn bod y strategaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i sut y gellir cyflawni sefyllfa sero carbon net.

99 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig, a gynigiwyd gan y Cynghorydd John Lancaster a'i gefnogi gan y Cynghorydd Shaun Jenkins, wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Derbyniwyd 2 newid i'r cynnig.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Lancaster gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Yn unol â Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018), y gwahaniaeth hanfodol rhwng lletem glas a Llain Las yw, "...y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisiau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu."

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Y bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dod i ben yn 2026.
- Y caiff y broses o ddiogelu'r lletem glas yng ngogledd Caerdydd, sy'n ymestyn o Greigiau i Laneirwg ei hadolygu yn rhan o'r CDLI nesaf.
- Bod yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft yn nodi: "Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y Ddeddwyrair i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd."

Felly rydym yn galw ar y Cyngor hwn i weithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos i ailddatgan a gwella diogelu trwy ddynodi'r lletem glas cyfredol yn Llain Las er mwyn diogelu asedau gwyrdd y Ddinas yn fwy hirdymor.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jenkins.

Cymerodd yr Arglwydd Faer bob un o'r diwygiadau yn eu trefn.

Diwygiad 1: Cynigiwyd gan y Cynghorydd Rodney Berman ac eiliwyd gan y Cynghorydd Nigel Howells.

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

- *Dileu'r atalnod llawn ar ôl "asedau gwyrdd y ddinas-ranbarth" ar ddiwedd y cynnig ac ychwanegu:*

*"; ac er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar y gallu i fynd i'r afael â'r angen am dai yn y dyfodol, i lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y fframwaith cynllunio a pholisïau cynllunio perthnasol Cymru, er mwyn gallu mynd i'r afael â'r angen hwnnw a bodloni ar sail fwy rhanbarthol ar draws awdurdodau lleol yn y rhanbarth ehangach, gyda llai o ddibyniaeth ar awdurdodau lleol unigol yn gorfod asesu a chynllunio ar gyfer angen tai yn y dyfodol, ar wahân ac o fewn eu ffiniau eu hunain."*

Byddai'r cynnig diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

Yn unol â Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018), y gwahaniaeth hanfodol rhwng lletem glas a Llain Las yw, "...y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisïau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu."

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Y bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dod i ben yn 2026.
- Y caiff y broses o ddiogelu'r lletem glas yng ngogledd Caerdydd, sy'n ymestyn o Greigiau i Laneirwg ei hadolygu yn rhan o'r CDLI nesaf.
- Bod yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft yn nodi: *"Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y Ddeddwyrain i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd."*

Galwn felly ar y cyngor hwn i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i gadarnhau a gwella'r diogelwch drwy ddynodi'r tir lletem glas presennol yn llain las er mwyn rhoi mwy o warchodaeth hirdymor i asedau gwyrdd y ddinas-ranbarth ac er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar y gallu i fynd i'r afael â'r angen am dai yn y dyfodol, i lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y fframwaith cynllunio a pholisïau cynllunio perthnasol Cymru, er mwyn gallu mynd i'r afael â'r angen hwnnw a bodloni ar sail fwy rhanbarthol ar draws awdurdodau lleol yn y

rhanbarth ehangach, gyda llai o ddibyniaeth ar awdurdodau lleol unigol yn gorfod asesu a chynllunio ar gyfer angen tai yn y dyfodol, ar wahân ac o fewn eu ffiniau eu hunain."

Diwygiad 2: Cynigiwyd gan y Cynghorydd Caro Wild ac eiliwyd gan y Cynghorydd Bob Derbyshire.

Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

Yn unol â Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018), y gwahaniaeth hanfodol rhwng lletem glas a Llain Las yw, "...y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisiau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu."

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Ychwanegiad. Bod y Cyngor wedi gwneud cais am ddynodiad llain las ar gyfer ein CDLI presennol, ond y cawsant eu gwrthod gan yr Arolygiaeth Gynllunio Annibynnol.
- Y bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dod i ben yn 2026.
- Y caiff y broses o ddiogelu'r lletem glas yng ngogledd Caerdydd, sy'n ymestyn o Greigiau i Laneirwg ei hadolygu yn rhan o'r CDLI nesaf.

Ychwanegiad. Ymrwymiad parhaus y weinyddiaeth hon i ddiogelu ardal y llain las.

- Bod yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft yn nodi: *"Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y Ddeddwyrain i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd."*

Galwn felly ar y Cyngor hwn i weithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos

ADD a Llywodraeth Cymru i gadarnhau a gwella'r amddiffyniad

~~DILEU drwy ddynodi'r tir lletem glas presennol yn llain las er mwyn rhoi mwy o warchodaeth hirdymor i asedau gwyrdd y ddinas-ranbarth.~~

YCHWANEGU ar gyfer y safle hwn a mannau gwyrdd ar draws y ddinas gyfan fel rhan o'n hadolygiad CDLI nesaf, a thrwy unrhyw ymgynghoriadau sydd ar y gweill ynghylch CDS rhanbarthol posibl.

Byddai'r cynnig diwygiedig fel a ganlyn:

Yn unol â Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018), y gwahaniaeth hanfodol rhwng lletem glas a Llain Las yw, "...y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisiau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu."

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- drwy ddynodi'r tir lletem glas presennol yn llain las er mwyn rhoi mwy o warchodaeth hirdymor i asedau gwyrdd y ddinas-ranbarth
- Y bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dod i ben yn 2026.
- Y caiff y broses o ddiogelu'r lletem glas yng ngogledd Caerdydd, sy'n ymestyn o Greigiau i Laneirwg ei hadolygu yn rhan o'r CDLI nesaf.
- Ymrwymiad parhaus y weinyddiaeth hon i ddiogelu ardal y llain las.
- Bod yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft yn nodi: *“Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y Ddeddwyrain i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd.”*

Galwn felly ar y cyngor hwn i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a Llywodraeth Cymru er mwyn ailddatgan a gwella'r amddiffyniad ar gyfer y safle hwn a mannau gwyrdd ar draws y ddinas gyfan fel rhan o'n hadolygiad CDLI nesaf, a thrwy unrhyw ymgynghoriadau sydd ar y gweill ynghylch CDS rhanbarthol posibl.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig.

Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd John Lancaster i grynhoi. Wrth grynhoi, cadarnhaodd y Cynghorydd Lancaster ei fod yn derbyn Diwygiad 1 fel y Cynnig o Sylwedd.

Symudodd yr Arglwydd Faer i bleidleisio ar Ddiwygiad 2 fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Caro Wild.

DERBYNIWYD y bleidlais ar Ddiwygiad 2.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Wild fel cynigiwr y Cynnig o Sylwedd i ymateb.

Symudodd yr Arglwydd Faer i'r bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd.

DERBYNIWYD y Cynnig o Sylwedd fel a ganlyn:

Yn unol â Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018), y gwahaniaeth hanfodol rhwng lletem glas a Llain Las yw, "...y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisïau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu.”

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Bod y Cyngor wedi gwneud cais am ddynodiad llain las ar gyfer ein CDLI presennol, ond y cawsant eu gwrthod gan yr Arolygiaeth Gynllunio annibynnol.
- Y bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dod i ben yn 2026.

- Y caiff y broses o ddiogelu'r lletem glas yng ngogledd Caerdydd, sy'n ymestyn o Greigiau i Laneirwg ei hadolygu yn rhan o'r CDLI nesaf.
- Ymrwymiad parhaus y weinyddiaeth hon i ddiogelu ardal y llain las.
- Bod yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft yn nodi: *"Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y Ddeddwyrain i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd."*

Galwn felly ar y cyngor hwn i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a Llywodraeth Cymru er mwyn ailddatgan a gwella'r amddiffyniad ar gyfer y safle hwn a mannau gwyrdd ar draws y ddinas gyfan fel rhan o'n hadolygiad CDLI nesaf, a thrwy unrhyw ymgynghoriadau sydd ar y gweill ynghylch CDS rhanbarthol posibl.

100 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Cwestiwn y Cynghorydd Robson*

Rhwng 2014/15-2018/19 gwariwyd £26.4 miliwn ar ddaliadau diswyddo ar gyfer 1,246 o staff, ac eto gostyngodd cyfanswm nifer cyffredinol staff y Cyngor o lai na 300. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau y gellir cyflawni arbedion yn y gyllideb yn y dyfodol a bod swyddi newydd yn cael eu rheoli'n dynn drwy'r Cyngor cyfan?

*Ateb – y Cynghorydd Weaver*

I fod yn glir, rhaid i'r holl ddiswyddiadau ddangos budd ariannol net i'r Cyngor dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae'n bwysig cofio, wrth gwrs, mai untro yw costau dileu swyddi, a bod yr arbediad yn parhau, wrth gwrs. Fodd bynnag, nid yw eich cwestiwn ynglŷn â'r cyfrif pennau wedi gostwng ar yr un gyfradd yn union â'r diswyddiadau. Nid yw'r holl wasanaethau wedi gostwng ar yr un gyfradd. Felly mae arbedion o ran dileu swyddi mewn rhai ardaloedd wedi helpu i gau'r bwch hwnnw yn y gyllideb bob blwyddyn y mae'n rhaid i ni ei wneud er mwyn creu swyddi newydd yn y meysydd twf a galw hynny mewn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn benodol. Felly, er enghraifft, mae swyddi nad ydynt yn rhai ysgol yn y Cyngor hwn wedi gostwng dros y 5 mlynedd diwethaf, ond mae nifer net y swyddi mewn ysgolion wedi cynyddu, rydym wedi cynyddu niferoedd disgyblion, rydym wedi cynyddu nifer y lleoedd ysgol ac felly rydym wedi cael cynnydd net mewn niferoedd. Mae hefyd yn werth nodi ein bod, dros y blynyddoedd, wedi llwyddo i ddenu gwahanol ddarnau o gyllid grant ar gyfer nifer o brojectau mewn gwahanol feysydd gwasanaeth, ac wrth gwrs weithiau byddwn yn defnyddio ein harian grant i recriwtio i swyddi a denu pobl newydd yn y modd hwnnw, ond wrth gwrs nid yw hynny'n faich ychwanegol ar y Cyngor.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Robson*

Mae'n ddrwg gennyf ond collais ran gyntaf eich ateb oherwydd y sŵn ond cymeraf y pwynt am bethau fel cyllid grant lle nad yw'n gost i'r Cyngor gynyddu'r nifer o staff, fodd bynnag, wrth edrych ar yr hyn sy'n ffigurau noeth fel hyn, mae'n mae'n ymddangos ein bod wedi colli, yn anffodus, nifer o staff ac eto nid oedd y nifer wedi

cwmpo llawer, felly er fy mod yn credu fy mod yn disgwyl i'r bwlch rhwng y gostyngiad mewn nifer y staff a'r taliadau ar ddiswyddiadau fod yn llawer ehangach, hynny yw fy mhryder, mae'n ymwneud â'r broses gyllidebu a gwneud yn siŵr pan fyddwn yn penderfynu gwneud y penderfyniad anodd hwnnw i ddiswyddo, ei fod mewn gwirionedd yn ystyrlon i'r Cyngor o ran arbedion ac nad ydym, fel roedd wedi digwydd mewn rhai adrannau, ond yn dod ag ymgynghorwyr yn ôl i mewn i lenwi bwlch na ellid ei ragweld efallai.

*Ateb – y Cyngorydd Weaver*

Na dwi'n deall hynny, dwi'n meddwl y gallai hyn helpu i'w esbonio efallai, os ydych chi'n edrych ar wasanaethau nad ydynt yn rhai ysgol, rydyn ni wedi cael ychydig dros 800 o ddiswyddiadau dros y cyfnod hwnnw gyda gostyngiad net o 768 mewn niferoedd, felly mae'n cydberthyn yn agos iawn. Mewn ysgolion, mewn gwirionedd, er bod diswyddiadau wedi bod mewn ysgol unigol am fod pob ysgol yn pennu ei chyllideb, mae ganddi ei phŵer ei hun i bennu ei chyllideb ei hun, ar draws y ddinas roedd gennym gynnydd yn niferoedd net o bron 400 o staff mewn ysgolion sydd ond yn adlewyrchu ein niferoedd cynyddol o ddisgyblion a'r nifer uwch o leoedd yr ydym wedi eu cynnig mewn ysgolion yn y ddinas. Gallaf allu ysgrifennu atoch ynghylch rhan gyntaf fy ateb yn amlwg yn gallu cael yr ateb llawn.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Berman*

Yn dilyn cyhoeddi strategaeth gordewdra derfynol Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a wnaiff y Cyngor:

- a) nawr cymryd camau i gydweithio ag ysgolion y ddinas ar fentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant;
- b) gweithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo mwy o wybodaeth am faeth er mwyn rhoi'r gallu i gwsmeriaid wneud dewisiadau mwy hyddysg wrth fwyta allan;
- c) edrych i mewn i'r posibilrwydd o osod gwaharddiad ar hysbysebu bwyd sothach ar bob safle hysbysebu a reolir gan y Cyngor;
- ch) gweithio tuag at ddarparu mwy o orsafoedd ail-lenwi dŵr;
- d) sicrhau y caiff camau gweithredu sydd wedi'u hanelu at atal a mynd i'r afael â gordewdra eu cydgysylltu ar draws polisïau'r Cyngor; a
- dd) archwilio datblygiad polisïau cynllunio gyda'r bwriad o osod terfynau ar sefydlu siopau cludfwyd poeth newydd o amgylch ysgolion a chymunedau?

*Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas*

Cefais fy nharo gan rai o'ch awgrymiadau, fe wnaethant fy nharo fel rhai caeth o bosibl, rhai o'r syniadau, ond rwy'n croesawu eich symudiad tuag at y trawsnewid tuag at economi gynlluniedig ganolog. Mae hon yn agenda yr ydym yn ei chymryd o ddifrif yng Nghaerdydd fel y gwyddoch a chawsom rywfaint o drafodaeth yn y Siambur heno am yr angen i ddarllen dogfennau amrywiol yn dda a allaf eich annog i ymgysylltu â chyfrif Twitter Ysgolion Iach Caerdydd, felly dim gormod o ddarllen, ond fe welwch chi yno, yn syml iawn, enghreifftiau rhagorol o sut yn union yr ydym yn gweithio gydag ysgolion y ddinas ar fentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant. A gaf i achub ar y cyfle i longyfarch tair ysgol sydd, o fewn yr wythnos ddiwethaf, wedi ennill gwobrau, mae Ysgol Gynradd Hywel Dda wedi cyflawni cam 4

y Rhaglen Ysgolion Iach, mae Ysgol Gynradd Coryton wedi cyflawni cam 6 o'r Rhaglen Ysgolion Iach ac mae Ysgol Gynraedd Glyncoed wedi ei dyfarnu a gwobr genedlaethol am eu gwaith ar fwyta'n iach. Gallwn fynd drwy bob un o'ch awgrymiadau o ran ffyrdd amrywiol yr ydym yn ymateb iddi ond rwy'n siwr eich bod am ymdrin â hynny yn y cwestiwn atodol

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Berman*

Mae'r pwyntiau sydd yn y cwestiwn i gyd yn bwyntiau a oedd yn codi ar faterion yn y cynnig a gyflwynwyd gennym fod eich gwelliant wedi ei ddileu ond wedyn wedi ymddangos mewn fformat tebyg i waith statudol Llywodraeth Cymru felly mewn gwirionedd rwy'n gobeithio gweld y bydd y Cyngor yn awr yn croesawu mynd â rhai o'r materion hyn ymlaen, yn fwy na rhoi ychydig o negeseuon trydar yn unig, fel y cyfeirioch chi atynt, felly efallai y gallwn gael adroddiad i'r Cyngor yn y dyfodol agos sy'n dangos sut y bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â llawer o'r materion hyn.

*Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas*

Dydw i ddim eisiau pendroni ar y trydar ond bod trydar yn cynrychioli rhaglen sy'n 20 oed ac wedi cyflwyno digwyddiadau arwyddocaol gan gynnwys, dybiwn i, pan oeddech chi'n Arweinydd. Mewn meysydd eraill, mewn perthynas â'r cwestiynau rydych chi'n gofyn, gall y Cyngorydd Michael roi'r holl wybodaeth i chi, a llawer o hynny rwy'n siŵr, am ein strategaeth gorsafoedd ail-lenwi, ein strategaeth fwyd arobryn sydd ar fin cael ei hadnewyddu fis nesaf ond byddaf yn llongyfarch y Cyngorydd am helpu i lunio Polisi Llywodraeth Cymru hefyd, yn sicr fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd byddwn, yr wythnos nesaf mewn gwirionedd, yn ystyried ymateb ledled y ddinas i gyflawni Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y pryd. Byddwch yn ymwybodol bod y ffaith bod Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd wedi lansio cynllun gweithredu Symud Mwy, Bwyta'n Dda - mae hynny'n golygu camau gweithredu penodol ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus ac yn sicr fel cyngor byddwn yn ceisio chwarae ein rhan lawn yn y gwaith o'u cyflawni.

*Cwestiwn - y Cyngorydd McGarry*

Nawr bod yna lawer o lonydd beicio newydd i annog beicio yn y ddinas, beth yw'r cynlluniau i archwilio ac atgyweirio, os oes angen, pob un o'r hen lonydd beicio?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Nid yw ein cynlluniau i ddatblygu llwybrau beicio ar draws y ddinas wedi'u cyfyngu i ond datblygu llwybrau newydd. Rydym hefyd yn gweithio ar uwchraddio a gwella llwybrau presennol, er enghraifft ein gwaith diweddar i wella'r lôn feiciau o ansawdd gwael drwy faes parcio Heol y Gogledd.

Rydym hefyd wrthi'n ceisio barn beicwyr drwy arolwg ar-lein ynghylch pa lwybrau beicio fyddai'n elwa fwyaf o osod arwyneb newydd. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu hystyried pan fyddwn yn blaenoriaethu ein rhaglen ailwynebu.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd McGarry*

Tybed, pan fyddant yn gwneud yr arolwg, a yw pobl ar feiciau yn beicio'r llwybrau hynny fel y gallant weld lle mae ymylon y ffyrdd ar y ffyrdd beicio, maent yn anwastad yn aml, nid dim ond o ran tyllau, ond yn anwastad iawn fel y bydd yn rhaid i chi feicio i fyny ar y pafin er mwyn mynd heibio, felly dwi'n gobeithio bod y bobl sy'n gwneud yr arolygon yma yn rhai ar feiciau.

#### *Ateb - y Cyngorydd Wild*

Yn union hynny, rwy'n credu bod arolygon pan fyddant wedi gwneud o ran peirianeg draddodiadol wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr arwyneb cyffredinol yn hytrach na'r darn i'r chwith a dyna'n union pam rydym wedi gofyn i feicwyr am eu barn ac maent wedi dweud wrthym am hyn. Hefyd yn gyffredinol, rydym wedi ailwynebu'r rhan fwyaf o'r rhai y maent wedi'u rhestru fel y rhai gwaethaf ond y dyddiad cau ar gyfer y sgwrs yw yfory os ydych am nodi hynny.

#### *Cwestiwn – y Cyngorydd Cowan*

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

Faint o blant a leolwyd mewn lleoliadau y tu allan i'r Sir, beth yw'r lleoliad pellaf o Gaerdydd, beth yw'r lleoliad drutaf a'r costau cysylltiedig a chyfanswm cost yr holl leoliadau?

#### *Ateb – y Cyngorydd Hinchey*

Byddwn yn hapus i gwrdd â chi oherwydd bod y cwestiwn braidd yn amwys o ran y cwestiwn. Mae lleoliadau'n cynnwys ystod eang o wasanaethau a dewisiadau a wnawn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn falch o gyfarfod â chi i drafod yn fanylach y cwestiwn yr ydych wedi'i gyflwyno, ond mae'n debyg y bydd angen i chi fod ychydig yn fwy penodol ynghylch y math o leoliad yr ydych yn cyfeirio ato a gallai'r costau cysylltiedig gael eu cyfrifo wedyn. Er enghraifft – preswyl, maethu, gofal gan berthnasau, llety â chymorth, gwarchodaeth arbennig, lleoliadau Pan Fyddaf yn Barod, ac mae'r rhestr yn mynd ymlaen. Byddwn yn fwy na pharod i weithio gyda chi, credaf mai neithiwr oedd, lle bu rhai Aelodau yn y Siambr yma ac aethom drwy rai o fanylion y gwahanol leoliadau, o'r hyn y maent yn ei olygu mewn gwirionedd yn hytrach na meddwl am y prif ffigur a allai fod yn dda ar gyfer taflenni, mae gen i fwy o ddiddordeb yn y math iawn o leoliad ar gyfer y plentyn iawn. Clywsom rai straeon da iawn neithiwr am un person ifanc penodol, mewn gwirionedd cafodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y fideo y diwrnod cynt am leoliad allanol – lleolwyd y ferch honno yn yr Alban. Rydym wedi siarad am rai o'r pellteroedd hyn ac nid yw'n meddwl ei fod yn anghywir. A dweud y gwir y stori, yr wyf yn fwy na pharod i'w rhannu gyda chi, roedd hi'n stori lwyddiannus iawn o ran dychwelyd y person ifanc hwnnw yn ôl i'w theulu a bywyd llwyddiannus iawn felly o ran y manylion, rwy'n deall hoffech gael rhai ffigurau pennawd ond credaf yn gyntaf bod angen i chi ddeall, efallai pe gallech ddod i'r sesiwn frifio Gwasanaethau Plant nesaf, byddech chi'n deall y gwahanol fathau, rwy'n credu y byddech chi'n fwy na thebyg yn deall oherwydd yr adborth ar draws y Siambr, rwy'n gweld pobl yn nodio hyd yn oed yn eich plaid eich hun, roedd yn ddefnyddiol iawn oherwydd ei fod yn fath o nodi'r gwahanol fathau o leoliadau a'r hyn y maent mor fwy na pharod i weithio gyda chi.

#### *Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Cowan*

Mae'n rhaid i mi ddweud Arglwydd Faer yr wyf wedi eistedd yma'n dawel drwy'r nos oherwydd yr wyf yn hollol gandryll, rhaid i mi ddweud. Mae'r Cyngorydd yma yn honni ein bod am ddefnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion etholiad ar gyfer cylchlythyrau, nid dyna'r pwynt – yr wyf wedi gofyn y cwestiwn hwn o'r blaen ac mae'n rhaid i mi ddweud bod eich diffyg gweithredu mewn perthynas â'r ffordd y cawsom ein trin heno wedi bod yn warthus o beth. Byddaf yn ysgrifennu atoch.

#### *Cwestiwn – y Cyngorydd Berman*

A yw'r Aelod Cabinet yn fodlon bod yr adroddiad monitro cyllideb mis 4 a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 26 Medi yn dangos y rhagwelir y bydd y Cyngor yn methu â chyflawni £6.290 miliwn mewn arbedion allan o'r £19.157 o arbedion y cytunwyd arnynt yn y gyllideb 2019-20, sy'n cynrychioli ychydig o dan draean o'r arbedion a gynlluniwyd eleni ac yn dangos bod rheolaeth gyllidebol yn yr awdurdod hwn yn ymddangos yn gwbl ddiffygiol unwaith eto?

#### *Ateb – y Cyngorydd Weaver*

Fel y byddwch yn gwybod o'r adroddiad, nid wyf yn fodlon â'n sefyllfa ym mis 4 er fy mod yn hyderus y byddwn yn cyrraedd sefyllfa gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn, yn gyffredinol. Rydym i gyd yn ymwybodol ei bod yn fwyfwy anodd parhau i gyflawni arbedion ar raddfa sydd ei hangen i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn ac nid oes dianc rhag hynny. Fodd bynnag, roedd gan nifer o'r cynigion arbedion a basiwyd ym mis Chwefror risg gyraeddadwy o goch neu ambr-goch. Er mwyn adlewyrchu'r risg hon, gwnaethom gynnwys cyllideb wrth gefn o £3 miliwn, ac roedd y gyllideb wrth gefn hon, ynghyd â mesurau eraill, yn cymryd rhan mewn rheoli cyllideb yn ystod y flwyddyn a lliniaru'r effaith ar y llinell waelod.

Fodd bynnag, gan edrych ymlaen at gyllideb y flwyddyn nesaf, rwy'n mynd i barhau i wthio am fwy fyth o ffocws a sicrhau bod ein cynigion cynilo mewn cyflwr o gynllunio manwl a dechrau gweithredu cyn gynted â phosibl er mwyn cynyddu ein hyder byddwn yn gallu i gyflawni arbedion trawsnewidiol a gwella effeithlonrwydd. Byddwn hefyd, wrth gwrs, yn adolygu'r pwysau sy'n codi mewn rhai meysydd gwasanaeth er mwyn sicrhau bod ein sefyllfa o ran y gyllideb sylfaenol yn adlewyrchu hynny.

#### *Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Berman*

Mae'n destun cywilydd, a dweud y gwir, na fydd cyfran mor uchel o'r arbedion y cytunir arnynt yng nghyllideb eleni yn cael eu cyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn, rwy'n credu bod traean yn gwbl hurt. A phan edrychom ar hyn mewn gwaith craffu, buom yn edrych ar ddau faes gwasanaeth, un o'r meysydd sy'n gorwario, rheoli cyfleusterau, lle mae gorwariant rhagamcanol o tua hanner miliwn. Pan holais sut y daethom at hynny daeth yn eithaf clir ei bod yn ymddangos ein bod wedi gosod cyllideb afrealistig ar gyfer y gweinyddion parhaus ac eto mae'r Cyngor wedi parhau i wario er gwaethaf y ffaith y dylem fod wedi gwybod ymlaen llaw nad oedd digon o arian wedi'i ddyrannu am yr hyn a ddarperid.

Felly, tybiaf mai fy nghwestiwn i chi yw pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd yn awr i sicrhau nid yn unig bod cynigion arbedion ond y gyllideb waelodol yn cael yr her briodol i wneud yn siŵr nad ydym yn ailadrodd y sefyllfa hon eto y flwyddyn nesaf?

*Ateb – y Cyngorydd Weaver*

Yr wyf eisoes wedi dweud mai dyna'n union yr ydym yn ei wneud o ran adolygu ein cyllideb sylfaenol, ond dywedaf wrthyfch yr hyn sy'n embaras yw'r deng mlynedd o dorri y mae Llywodraeth Leol wedi'i ddiodef yn y wlad hon.

Os edrychwch ar yr arbedion yr ydym bellach wedi'u sicrhau £4 miliwn o'r rheini yn y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig gwasanaethau plant, gwyddom am y pwysau sy'n dod yno, maent yn genedlaethol. Nid ydym yn cael y gyllideb yr ydym yn ei haeddu i'w rhoi i'r gwasanaeth hwnnw.

Felly ydym, rydym yn gofyn i feysydd gwasanaeth wthio arbedion heriol ymlaen ac maent yn anodd i'w gwneud, ond dyna pam y mae gennym gyllideb gyfunol fel y gallwn gymryd y risgiau hynny, gallwn bwyso am drawsnewid yn hytrach na dim ond cau'r drysau ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnom. Ond mae hynny'n rhoi'r sefydlogrwydd ariannol i ni wneud hynny. Ac ydw, rwyf am i lawer mwy o arbedion gael eu cyflawni na'r hyn a wnaed gennym hyd yma eleni, a byddwn yn parhau i'w gwthio allan. Ond nid wyf am ymddiheuro am y ffaith y byddwn yn ceisio amddiffyn gwasanaethau ym mha le bynnag y gallwn, byddwn yn cyflwyno gwasanaethau heriol a byddwn yn sicrhau bod y cyngor hwn mewn sefyllfa ariannol fel y gallwn gymryd y risgiau hynny.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Dilwar Ali*

A all yr Aelod Cabinet wneud datganiad am y cyflwyniad nesaf yng Nghogledd Caerdydd o ran Next Bikes?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Diolch i'r Cyngorydd Ali am fynd â mi yno. Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd mae swyddogion yn ymwneud â gosod gorsafoedd Next Bikes yn y ddinas, gallaf eu gweld yn ymddangos o gwmpas y lle yn dilyn ychydig o oedi oherwydd y fandaliaeth sylweddol.

Bwriedir gosod lleoliadau ychwanegol yr hydref hwn yn ardal Gogledd Caerdydd, gan gynnwys Ystum Taf, yn yr orsaf drenau, a gwn ein bod yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, mae ychydig yn rhwystredig nad ydym wedi cael hynny mewn lle eisoes, ond dywedir wrthyf ei fod dal yn fwriad i'w gynnal yn y cylch hwn.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Dilwar Ali*

Diolch i chi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am orsafoedd Ystum Taf. A oes gennych unrhyw amserlen pan allwn gael Next Bike yn Ystum Taf?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Gynted ag y gallaf wneud iddo ddigwydd.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Williams*

Mae'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau yn Neuadd y Ddinas yn gwneud gwaith aruthrol a'r llynedd fe gynhyrchodd dros £1m o refeniw i'r Cyngor. Rwy'n siwr y byddwch yn dymuno ymuno â mi a chydabod a diolch i'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau am bopeth y maent yn ei wneud i'n Cyngor a'n Dinas. Mae'n bwysig bod ein holl swyddogion sy'n gweithio yn Neuadd y Ddinas yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynlluniau sydd gan y weinyddiaeth ar gyfer Neuadd y Ddinas - mae'n siomedig nad yw swyddogion wedi cael gwybodaeth yn ddiweddar ac wedi dibynnu ar adroddiadau yn y wasg am wybodaeth. Mae hyn yn annerbyniol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor Llawn am eich cynlluniau ar gyfer dyfodol Neuadd y Ddinas?

*Ateb – y Cyngorydd Goodway*

Rwy'n siŵr y bydd fy nghyd-Aelod, y Cyngorydd Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden yn croesawu sylwadau caredig y Cyngorydd Williams ynghylch perfformiad Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau Neuadd y Ddinas y Cyngor a heb os, bydd yn cyfleu'r teimladau a fynegwch i arweinydd y tîm.

Gallaf hysbysu'r Cyngorydd nad oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau cyfredol ar gyfer Neuadd y Ddinas, ac felly nid oes unrhyw gynlluniau y gallaf seilio'r wybodaeth ddiweddaraf arnynt i roi i'r Cyngor neu y gellid eu rhannu ag aelodau o staff sydd wedi'u lleoli yn yr adeilad.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Williams*

Dim ond i gadarnhau bod Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau Neuadd y Ddinas yn gwneud gwaith gwych, ac maent yn haeddu ein canmoliaeth, ac rwy'n credu bod hynny'n wych ei fod ar draws y Siambr a'r pleidiau.

Cyngorydd Goodway a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff yn Neuadd y Ddinas oherwydd mae'r staff yn gwbl bryderus ynghylch dyfodol Neuadd y Ddinas. Yr ydym am gael addewid y bydd gweinyddiaeth y Cyngorydd Thomas, sydd â dwy flynedd a hanner ar ôl, drwy gydol eich gweinyddiaeth, yn gwneud dim ymdrech i roi Neuadd y Ddinas i drydydd parti i'w phrydlesu. A allwch roi'r addewid hwnnw i ni heno?

*Ateb – y Cyngorydd Goodway*

Mae'r darlun o ran datblygu diogelu ein hadeiladau treftadaeth ar y cofnod cyhoeddus. Mae wedi bod yn fater o adroddiad Cabinet y cyfeiriaf y Cyngorydd ato. Bydd ganddo wybodaeth dda ac yna ni fydd yn rhaid iddo gamarwain y staff yn Neuadd y Ddinas.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Taylor*

Beth mae'r Cyngor yn ei ystyried i fod yn lefelau diogel o lygredd aer y tu allan i'n hysgolion?

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Hoffwn eich cyfeirio at yr ateb a ddarparwyd i'ch ail Gwestiwn Ysgrifenedig ar yr un pwnc.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Taylor*

Diolch am eich ymateb i'm cwestiwn ysgrifenedig, efallai eich bod yn ymwybodol bod mwy na hanner y meddygon teulu yng Nghaerdydd mewn manau lle mae PM 2.5 uwchlaw cyfartaleddau Sefydliad Iechyd y Byd. Roeddwn yn meddwl tybed a fydddech yn mabwysiadu arferion gwell wrth adrodd ar lefelau sefydliad iechyd y byd ar gyfer PM 2.5 fel mater o arfer gorau i sicrhau ein bod yn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau i bobl yn y ddinas hon.

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Nid oes lefel ddiogel “diogel” o ran llygredd aer, mae'n lefel gyfreithiol lle'r ydym yn mynegi bod yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn cael ei fonitro yn is na'r lefel honno. Mewn ysgolion er enghraifft rydym yn monitro'n rheolaidd, rydym mewn gwirionedd wedi dyblu'r monitro rydym yn ei wneud. Yr hyn y byddwn yn parhau i'w wneud yw bod o fewn y lefel isel honno a pharhau i wneud y gorau a allwn i sicrhau bod llygredd aer y ddinas hon mor isel â phosibl.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Keith Jones*

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datganiad Uchelgais Prifddinas ar adfer hwylio ar gronfa ddŵr Llanisien?

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Gallaf gadarnhau bod y Cyngor, drwy'r gwasanaeth Parciau, yn rhan o grŵp rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan weithredol mewn prosiect sy'n cael ei arwain gan Ddŵr Cymru sydd â'r nod o ddod â'r safle yn ôl i'w ddefnyddio at ddibenion hamdden.

Deallaf y bydd y broses recriwtio ar gyfer Rheolwr Partneriaeth y Project yn dod i ben yn fuan ac mae Dŵr Cymru yn y broses o baratoi ar gyfer y cam cynllunio cyn ymgeisio, a fydd yn golygu ymgynghori â chymunedau lleol.

Mae hwn yn ymrwymiad allweddol fel rhan o'r ddogfen Uchelgais Prifddinas ac mae cynnydd da yn cael ei wneud arno.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Jones*

Fel y bydd yr Aelodau'n gwybod yr wyf hefyd wedi bod yn forwr brwd drwy gydol fy mywyd. Croesawaf yr ymateb, yn amlwg fel y dywedodd y Cyngorydd Williams o'r blaen, mae wedi codi cwestiynau rydym yn gynghorwyr ar gyfer y ddinas gyfan. Felly mae hyn yn newyddion da i bobl Llanisien ond hefyd i Lanrhymini a phawb ar draws y ddinas.

Yr wyf wedi bod yn mynd am y 23 mlynedd diwethaf, yr wyf wedi llwyddo i fynd i Banbury lle mae Mrs Jones yn hanu ohoni, ac mae ganddynt gronfa ddwr wych sydd ond ychydig funudau o'r dref farchnad Seisnig hyfryd honno ac yno y'i defnyddir ar gyfer adloniant hwylio, llawer o weithgareddau ar gyfer y teuluoedd.

Oes gennych chi unrhyw syniad gyda'r gwaith pellach y gall y Cyngor Llafur ei wneud i sicrhau fy mod i'n gallu ddangos i'm perthnasau yr hyn y maen nhw wedi'i ddangos i mi ers 23 mlynedd? Mae ganddynt gronfa ddwr wych, a gallaf ddangos iddynt gronfa ddwr fendigedig Caerdydd.

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Yr wyf yn nodi eich diddordeb ers tro mewn hwylio a bod amseriad y cwestiwn hwn yn gyd-ddigwyddiad yn unig. Roeddwn hefyd yn awyddus bob amser i sicrhau eich bod yn plesio eich teulu felly gadawaf i chi â hyn, fod Dŵr Cymru wedi dechrau ail-lenwi cronfa ddwr Llanisien yn naturiol gan ddefnyddio cyfuniad o ddwr glaw a nentydd lleol a fydd yn bwydo i mewn iddo. Bydd y broses honno'n cymryd dwy flynedd, ac mae hynny'n rhywbeth y gall holl Aelodau'r Siambr hon fod yn falch ohono, yn enwedig y rhai a frwydrodd mor galed yn erbyn cael y gronfa ddwr wedil ei draenio yn y lle cyntaf.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Jones-Pritchard*

O ran polisi Caerdydd ar dai i bobl ifanc sy'n gadael ein gofal, faint ohonynt sy'n cael eu gosod yn llwyddiannus mewn tai sicrwydd hirdymor diogel a beth yw'r canlyniadau i'r rhai nad ydynt?

A wnewch chi ddarparu dadansoddiad o'r canlyniadau amrywiol a niferoedd/canrannau'r rhai sy'n gadael gofal sy'n berthnasol i bob canlyniad, gan gynnwys unrhyw rai na ellir gwneud darpariaeth ar eu cyfer?

*Ateb – y Cyngorydd Thorne*

Mae Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Thai a Chymunedau yn gweithio'n agos i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn symud ymlaen yn llwyddiannus i dai parhaol.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i dai cymdeithasol i bobl ifanc sy'n gadael gofal neu sydd wedi mynd yn ddigartref yn ifanc a darperir hyfforddiant a chymorth i'w helpu i symud ymlaen i fod yn annibynnol.

Cynigir hyfforddiant tenantiaeth i bobl ifanc sy'n symud i fyw'n annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gynnal tenantiaeth. Mae 192 o bobl ifanc wedi cael yr hyfforddiant hwn hyd yma, ac mae tua 50% ohonynt yn bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gael am 6 mis ar ôl i'r person ifanc symud i fyw'n annibynnol. Mae 154 o bobl wedi cael y cymorth hwn ac, unwaith eto, roedd tua 50% yn dod o adael gofal. Dim ond 2 denantiaeth sydd wedi methu.

Os yw tenantiaethau'n methu, gall pobl ifanc ddychwelyd i dai â chymorth a byddant yn cael eu hystyried ar gyfer tenantiaeth arall pan fydd eu hanghenion cymorth wedi cael sylw. Nid oes gennym unrhyw gofnod bod rhai sy'n gadael gofal heb allu sicrhau llety.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Jones-Pritchard*

Rwy'n siŵr ein bod yn cytuno bod cadw ein gofal dros ein plant, yr ydym yn rhieni corfforaethol iddynt, yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod y maent yn rhoi'r gorau i fod yn oed pan fydd yn rhaid iddynt dderbyn gofal gan oedolion eraill.

*Ateb – y Cyngorydd Thorne*

Mae'n hollbwysig. Maent wedi bod trwy rai profiadau trawmatig yn amlach na pheidio drwy gydol eu bywydau, ac maent yn fywydau ifanc. Ac mae'n bwysig ein bod yn darparu'r cymorth hwnnw ac yn eu galluogi i fyw bywydau llawn. Dyna beth rydym yn trio ei wneud.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Wood*

Nid yw llawer o ardaloedd y ddinas yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y hybiau cymunedol yn hawdd oherwydd pellter neu gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus gwael. A oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer hybiau cymunedol ychwanegol?

*Ateb – y Cyngorydd Thorne*

Yr wyf yn cofio pan oeddem yn cyflwyno cynlluniau i ddatblygu canolfannau cymunedol newydd yn y ddinas yn ôl yn 2012/13, bod aelodau'r gwrthbleidiau yn eu beirniadu. Nawr mae'n ymddangos bod pawb eisiau un!

Mae llwyddiant ein rhaglen hybiau yn dyst i'n hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu o fewn ein cymunedau lleol ac i ddiogelu a gwella ein gwasanaethau llyfrgell.

Rydym eisoes wedi datblygu 12 hyb yn llawn sy'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau ac mae eu cymunedau yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Mae ein Hyb Ieuenctid cyntaf ym Mhafiliwn Butetown yn cael ei ailwampio ar hyn o bryd hefyd.

Rydym hefyd bellach yn datblygu ein hadeiladau llyfrgell presennol ymhellach. Mae gennym gynlluniau ar gyfer ailddatblygu dau o'r adeiladau hyn – Rhydypenau a'r Eglwys Newydd – ac mae ceisiadau am gyllid wedi'u cyflwyno. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau i godi safon yr adeiladau sy'n weddill.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Wood*

Dw'i jyst eisiau iddo fod yn glir nad oeddwn i'n beirniadu sut mae pethau - mewn gwirionedd yn cael croeso mawr.

Mae llawer o drigolion fy ward, yn enwedig ystâd Mynachdy, wedi dweud eu bod yn cael trafferth cyrraedd yr hybiau presennol. Yr wyf yn cyfaddef y gall fod anawsterau wrth geisio adeiladu hybiau newydd oherwydd y costau, ond efallai y byddai'r Cyngor yn barod i edrych ar ffyrdd o ddarparu rhai o'r gwasanaethau eraill yn y cymunedau sydd eu hangen, a allai fod ymhellach oddi wrth yr hybiau presennol.

*Ateb – y Cynghorydd Thorne*

Mae gwasanaethau eraill ar gael sy'n ymestyn allan i'r gymuned – gan gynnwys llyfrgell deithiol a gwasanaeth sy'n gaeth i'r tŷ; ein gwasanaeth Byw'n Annibynnol sy'n rhoi cyngor dros y ffôn neu yn y cartref lle bo angen; a'n Llinell Gyngor sy'n rhoi cyngor ar arian gydag ymweliadau cartref yn ôl yr angen ac rwyf wedi trefnu ymweliadau â'r cartref yn bersonol yn arbennig ar gyfer Cyngor ar arian i etholwyr sydd wedi cysylltu â mi ac rwy'n credu o ddifrif bod angen i ni hyrwyddo hynny. Y peth arall yr hoffwn ei gael yw'n aml iawn rhywbeth mae pobl yn credu sydd ond ar gael i'r bobl hynny sy'n cael budd-daliadau, sef cyngor ariannol Nid dyna'r achos, mae ar gael i staff sy'n gweithio.

*Cwestiwn – y Cynghorydd Gordon*

Beth yw polisi'r Cyngor ar ddylunio stondinau parcio beiciau?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Dylai stondinau parcio beiciau gydymffurfio â Chanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ac, yn achos datblygiad newydd, CCA y Cyngor ar Reoli Effeithiau Trafnidiaeth.

Mae stondinau o fath Sheffield yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer parcio beiciau arhosiad byr yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Byddai dewisiadau eraill yn cael eu hystyried cyn belled â'u bod yn darparu o leiaf yr un lefel o wasanaeth â stondin Sheffield.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Gordon*

Mae'n wych ac yn bendant, yn ogystal â llawer o bobl ar feiciau nesaf o amgylch ein dinas, dw'i wedi gweld hefyd, fel beiciwr, yn ddyddiol fwy a mwy o feicwyr allan hyd yn oed er bod y tywydd yn mynd ychydig yn oerach nawr. Ond mae cloi eich beic yn ddiogel yn gwbl hanfodol er mwyn gallu gwybod a allwch chi fynd â'ch Next Bike allan, ac mae'r standiau o fath Sheffield a grybwyllasoch yn rhai da oherwydd gallwch chi roi eich beic yn erbyn stondin heb iddo ddisgyn drosodd ac yna cloi eich beic. Felly lle mae stondinau, sydd wedi cael eu gosod yn ddiweddar hyd yn oed, nad ydynt yn cydymffurfio â'r safon honno, a fyddwch yn gallu rhoi'r rhai a argymhellir gan y canllawiau teithio llesol yn eu lle?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Ymchwiliad i hynny. Mae'n dda iawn gweld yr holl stondinau hyn yn llawn. Edrychais o gwmpas y Sgwâr Canolog y diwrnod o'r blaen ac rwyf wedi bod yn sylwi ar bum neu chwech o stondinau gan gynnwys llawer o'r rhai newydd yn llawn i'r eithaf gyda

beiciau, ac rydym yn gwybod ein bod wedi cyflwyno a dyblu swm y parcio beiciau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hynny'n dda iawn i'w weld. Mae beiciau yn dod mewn siapiau a meintiau gwahanol nawr, felly dwi'n meddwl, fyddwn i ddim eisiau dweud y byddwn yn cael gwared ar hen rai ond yn gallu gwneud yn siwr ein bod yn rhoi rhai newydd addas eraill gan fod beiciau o wahanol siapiau a meintiau yn addas ar gyfer gwahanol stondinau. Os oes problem benodol gyda math arbennig, yna mae'n amlwg y bydd angen i ni edrych ar hynny ac ystyried eu cymryd i ffwrdd.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Williams*

Faint o gyflogeion a ddiswyddwyd o gyflogi'r Cyngor am gamymddwyn difrifol yn ystod y tair blynedd diwethaf?

Darparwch ddadansoddiad o rifau blynyddol a phwnc cyffredinol y camymddwyn a arweiniodd at ei ddiswyddo.

*Ateb – y Cyngorydd Weaver*

Ar draws y Cyngor, gan gynnwys ysgolion, bu 33 o diswyddiadau ar gyfer camymddwyn difrifol rhwng 1<sup>af</sup> Ebrill 2016 a 23<sup>ain</sup> Hydref 2019.

Y manylion yw:

- 14 diswyddiad yn 2016/17;
- 10 diswyddiad yn 2017/18;
- 4 diswyddiad yn 2018/19; a
- 5 hyd yma y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r categorïau cyffredinol ar gyfer y diswyddiadau yn cynnwys:

- Tor-y-mddiriedaeth;
- Ymddygiad y tu allan i'r gwaith;
- Anonstrwydd a thwyll;
- Diogelu;
- Ymddygiad annerbyniol yn y gwaith;
- Torri polisïau'r Cyngor; a
- Rhwystredigaeth contract.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Williams*

Diolch am yr ymateb, sy'n amlwg yn rhai o'r datgeliadau pryderus iawn yn ei ateb i'm cwestiwn troi at yr adran wastraff yn benodol. Mae'r cyhoedd yn gwybod bod ymchwiliad ar y gweill gan Heddlu De Cymru. Pan ddaw hynny i ben, Cyngorydd Weaver, a fydddech yn cytuno â mi ei bod yn gwbl briodol cyfarwyddo ymchwiliad annibynnol, felly gall rhywun annibynnol o'r Cyngor ddod i mewn ac ymchwilio i'r adran wastraff, a'r cyhuddiadau sydd yno ar ei ôl wedi dod i'r casgliad fel y gall y cyngor hwn ddysgu o'r argymhellion a dysgu ohonynt?

*Ateb – y Cyngorydd Weaver*

Mae gan y Cyngor brosesau ymchwilio trylwyr a hollol ddilys, mae hawliau ein haelodau staff yn glir, mae ein gweithdrefnau yn glir. Dydw i ddim yn mynd i wneud sylw am ymchwiliad sy'n parhau wrth gwrs - fel unrhyw sefydliad mawr, gan gynnwys y Llywodraeth, bydd materion lle mae aelodau staff yn camymddwyn ac mae'n iawn delio â hynny yn y modd priodol, sef y tu allan i'r Siambr.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Boyle*

A yw'r aelod o'r Cabinet yn credu bod bloc llety myfyrwyr Zenith o werth pensaernïol digonol ar gyfer adeilad o amlygrwydd o'r fath?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Mae fy marn bersonol fy hun ar rinweddau pensaernïol yr adeilad dan sylw yn eithaf amherthnasol gan nad oeddwn yn rhan o'r penderfyniad cynllunio a wnaed gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor. Felly mae'n weddol amherthnasol i mi wneud sylwadau ac ychydig yn ddi-fin i wneud sylwadau ar gartrefi y mae pobl yn byw ynddynt erbyn hyn.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Boyle*

Rwy'n credu ei fod yn siomedig iawn. Credaf fod gennym sefyllfa o fraint fel cynrychiolwyr etholedig i ddechrau nodi pensaerniaeth o ansawdd isel ac anfon neges at benseiri, datblygwyr a chynllunwyr na fyddwn yn derbyn dylunio diog, oeriadd ac anachronistig ac mae gennym hawl i gael barn a buaswn wedi meddwl y byddech chi a'ch safbwynt yn y Cabinet yn cael sefyllfa arbennig yn hynny o beth. Felly, efallai y gallwch ddweud wrth y Cyngor sut rydych yn defnyddio eich rôl i hyrwyddo dylunio pensaernïol o ansawdd da?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Y Cyngorydd Boyle, unwaith eto, mae gennym hawl i'n barn ac mae gennych hawl i gael eich barn a'r bobl eraill sydd â hawl i'w barn oedd y Pwyllgor Cynllunio. Ac nid wyf yn gwybod a wnaethoch chi gymryd rhan yng ngham y Pwyllgor Cynllunio i edrych i mewn i'r rhinweddau pensaernïol. Dyna pryd mae'r sgwrs yn digwydd ac mae'n digwydd yn ymyl CCAu sy'n sôn yn fanwl iawn am rinweddau pensaernïol adeiladau tal. Dyna'r amser i wneud hynny. Mae'n hawdd dod i mewn wedyn a dweud nad ydych yn hoffi rhywbeth. Yr amser i wneud y sylw yw cyn hynny. Ac mewn gwirionedd pan fyddaf yn cerdded i lawr y stryd honno, East Tindall Street, mi oedd yn feysydd parcio, roedd yn dir diffaith a gwelaf gymuned ffyniannus i lawr yno yn awr. Mae'n ffynnu, mae pobl yn byw yno ac mae wedi agor y gamlas, wedi creu swyddi ac rwy'n falch pan fyddaf yn cerdded i lawr y stryd honno o ran y datblygiad sydd wedi digwydd yn yr ardal honno

*Cwestiwn y Cyngorydd Robson*

A yw'r Arweinydd yn credu y dylid gwahanu cerddwyr a thraffig ffyrdd cymaint â phosibl?

*Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas*

Yr wyf yn ddiolchgar i Arweinydd yr wrthblaid am ei gwestiynau ychydig yn gryptig am wahanu traffig ffyrdd a cherddwyr. Credaf y gallaf ei ateb orau drwy gyfeirio at ddyfyniad o waith Aneurin Bevan o Lafur Cymru 'Gwyddom beth sy'n digwydd i bobl sy'n aros yng nghanol y ffordd. Cânt eu bwrw drostodd'.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Robson*

Diolch am yr ateb goleuedig hwnnw. Cyfeiriai'r cwestiwn at yr awgrymiadau a ddaeth i'r amlwg ynghylch llenwi'r danffordd gyferbyn â Neuadd y Ddinas. Fy marn yn sicr yw os byddwch yn llenwi'r danffordd bydd yn rhaid i gerddwyr fynd dros y ffordd. Rwy'n deall bod hynny'n broblem ar y funud. Ond a fydddech cystal â rhoi gwybod, ar bapur os oes angen, beth fyddai'r gost o lenwi'r danffordd, sydd yn fy marn i yn arian nad fyddai wedi'i wario'n dda a hefyd beth arall y gellir ei wneud i wella diogelwch fel y gall cerddwyr sy'n penderfynu croesi'r ffordd cael eu darbwyllo i beidio â gwneud hynny?

*Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas*

Mae'r cynlluniau a oedd yn gwneud y maes cyhoeddus yr wythnos diwethaf o amgylch y danffordd ar gam cynnar iawn ac mae gennyf farn gymysg yn eu cylch.

Yn amlwg, wrth edrych ar y lleiniau glaswellt, er enghraifft, o amgylch yr ardal honno, gallwch weld eu bod yn lleiniau mwdlyd mewn gwirionedd. Gallwch weld bod pobl yn cerdded ar draws croesfan arbennig ar yr ochr wrth ymyl y Cyngor, felly mae dadl resymol dros agor yr ardal honno i'w gwneud yn fwy hygyrch o ganol y ddinas gyda neuadd y ddinas.

Os oes rhaid cau'r danffordd hefyd, rhaid i ni weld. Yn sicr, gallaf weld y ddadl pam yr ydych am osgoi gwrthdaro rhwng beicwyr yn arbennig a modurwyr, a sicrhau bod y llif hwnnw o feicwyr a thraffig yn mynd mor llyfn ag sy'n bosibl.

Felly mae'r syniadau mewn cyfnod cynnar iawn, yn sicr nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrtho ac yr oedd yn eithaf braf gweld dadl eithaf aeddfed ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch manteision ac anfanteision y cynllun hwnnw

*Cwestiwn - y Cyngorydd Hopkins*

Pa gyfarfodydd y mae'r Aelod Cabinet wedi'u cael gyda Bws Caerdydd i archwilio'r rhesymau dros y gostyngiad yn y defnydd o fysiau, y gostyngiadau mewn gwasanaethau a sut i atal gostyngiadau pellach dros y flwyddyn i ddod?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Fws Caerdydd droeon i drafod materion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau bysiau a ddarperir gan y cwmni yn y ddinas.

Mae swyddogion hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â Bws Caerdydd i drafod materion gweithredol a strategol. Rhaid i mi ddweud fy mod yn ddyledus i'm cyd-aelodau ar draws y Siambr o bleidiau gwleidyddol gwahanol sy'n gwasanaethu ar Fwrdd Bws

Caerdydd a rhaid i mi eu cymeradwyo am eu gwaith diweddar o ran eu negeseuon cadarnhaol yr ydym yn eu cael gan y cwmni hwnnw.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Hopkins*

P'un a yw'r defnydd o fws sy'n dirywio yn unigryw i Gaerdydd, mae amgylchiadau penodol yn y ddinas sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Mae nifer ohonynt wedi'u nodi yn adroddiad monitro'r CDLI a byddant yn hysbys i'r Aelodau ar draws y Siambr yma, yn ymwneud â'r oedi yn y ganolfan drafnidiaeth o ran diffyg buddsoddi mewn seilwaith bysiau, tynnu rhai llwybrau bysiau yn ôl a lleihau nifer y gwasanaethau amllder mewn eraill y cyfeirir atynt yn gynnar yn y cyfarfod heno.

Diffyg cysylltiad ar draws y ddinas yn hytrach na theithiau i'r canol, cynnydd mewn prisiau a'r trefniant dros dro presennol ar Heol y Porth sy'n achosi oedi mewn llawer o wasanaethau.

Rwy'n siŵr na fydd unrhyw un ohonom yn synnu o ganlyniad i hyn fu erydu ffydd preswylwyr mewn trafndiaeth gyhoeddus a chynyddu unigedd pobl oedrannus yn benodol. Mae hyn ar adeg pan ddylem fod yn gwneud popeth a allwn i gyflawni amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Lleol.

Felly, mae'n rhaid mai'r pryder gwirioneddol, Cynghorydd Wild, yw y bydd cynaliadwyedd y gwasanaethau bws yn y dyfodol yn cael ei gyfaddawdu yn y flwyddyn i ddod ac yn y dyfodol. Felly a allwch ein sicrhau y gwneir pob ymdrech i osgoi hynny?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Mae'n werth nodi bod ffigyrau bysiau yn y ddinas yn seiliedig ar ein hadroddiad diweddaraf yn cyrraedd yn gymharol dda ac fel rydych chi wedi sôn mae dinasoedd eraill yn cael hyd yn oed yn fwy o ostyngiad, ac mae hynny er gwaethaf rhai o'r heriau rydyn ni i gyd yn eu cydnabod. A byddaf yn hapus iawn i dderbyn yr her nad yw strwythur trafndiaeth gyhoeddus y ddinas cystal ag y dylai fod.

Byddwn yn cyflwyno cynlluniau, Papur Gwyn, cyn bo hir a fydd yn cynnwys ceisio sicrhau bod y gwasanaeth bws yn cael blaenoriaeth a'n bod yn cael mwy o bobl ar ein bysiau ar draws Caerdydd.

101 : MATERION BRYS

Dim

102 : BWS CAERDYDD, PENODI RHEOLWR GYFARWYDDWR

Ystyriodd y cyngor benodiad Cyfarwyddwr Gweithredol newydd i Fws Caerdydd, a fyddai hefyd yn Rheolwr Gyfarwyddwr newydd y cwmni.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cyngor yn CYMERADWYO y broses o benodi unigolyn a enwyd yn Atodiad Cyfrinachol 1 yr adroddiad hwn fel Cyfarwyddwr Gweithredol Bws Caerdydd.

**103 : PENODIADAU PWYLLGOR**

Derbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi presennol y pwyllgorau fel y'u nodir yn yr adroddiad ac yn unol â dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Cyngor i benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgor yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau'r pleidiau fel y nodir ar y daflen diwygio.

<b>Pwyllgor</b>	<b>Swydd Wag</b>	<b>Grŵp</b>	<b>Enwebiad a dderbyniwyd</b>
Pwyllgor Archwilio	1 swydd wag	1 x Llafur	
Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol	1 swydd wag	1 x Ceidwadwr	
Pwyllgor Cynllunio	1 swydd wag	1 x Llafur	Cyng. Ed Stubbs
Diogelu'r Cyhoedd	3 swydd wag	1 x Ceidwadwr 1 x Annibynnol Gorllewin Caerdydd 1 x Llafur	
Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad	2 swydd wag	1 x Llafur 1 x Annibynnol Gorllewin Caerdydd	
Pwyllgor Trwyddedu	1 swydd wag	1 x Ceidwadwr	
Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion	1 swydd wag	1 x Llafur	

**104 : PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL**

Derbyn enwebiad a phenodi cynrychiolwyr o'r Cyngor i gyrff allanol statudol ac anstatudol.

**PENDERFYNWYD:** Nododd y Cyngor nad oedd unrhyw enwebiadau.

105 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor cafodd y [Cwestiynau Ysgrifenedig](#) a dderbyniwyd i'w hystyried a derbyn ymateb iddynt, wedi'u cyhoeddi.